



Change
100

**Yn arloesol.
Yn ddawnus.
Yn gyflogadwy.**

Yn paru'r ddawn amrywiol
orau â chyflogwyr blaengar.

Gwellwch eich sefydliad a
rhoi gyrfaedd myfyrwyr
prifysgol a graddedigion
anabl uchelgeisiol ar garlam.

**Leonard
Cheshire**





Helo

Leonard Cheshire ydyn ni – yn cefnogi unigolion i fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y dewisant, beth bynnag yw eu gallu. Wedi'i arwain gan bobl â phrofiad o anabledd, rydym wrth wraidd bywyd lleol – yn agor drysau i gyfleoedd, dewis a chymorth mewn cymunedau ledled y byd.

Yn 2013, lanswyd y rhaglen Change 100 gennym sydd â'r uchelgais o newid y tirlun cyflogi i fyfyrwyr a graddedigion diweddar ag anabledd.

Gan weithio gyda'n cyflogwyr partner i ddatblygu diwylliant cynhwysol yn y gweithle, ein nod ni yw symud rhwystrau a chreu cyfleoedd i bobl anabl i gyflawni eu potensial.

Wyddech chi?

Bydd

1 o bob 5

ohonom yn anabl ar ryw adeg o'n bywydau.*

Mae

77%

o fyfyrwyr a graddedigion diweddar sydd ag anabledd yn poeni y byddant yn wynebu gwahaniaethu os ydynt yn datgelu eu hanabledd i'w cyflogwyr.**

* Department for Work and Pensions, 2018

** GreatWithDisability.com, Openness: understanding why students are reluctant to be open with employers about their disability, 2015

Beth yw Change 100?

Rhaglen arobryn o leoliadau gwaith â thâl a mentora dros yr haf yw Change 100 i fyfyrwyr a graddedigion diweddar ag anabledd.

Yr hyn sy'n ein hysgogi

Nod Change 100 yw datgloi potensial cudd myfyrwyr a graddedigion diweddar ag anabledd a sicrhau bod gan sefydliadau mynediad at gronfa o ddawn sy'n llawn gallu, creadigrwydd a mewnwleddiad.

Eich cyfle chi

Ar hyn o bryd, rydym yn chwilio am gyflogwyr i gynnig lleoliadau â thâl dros yr haf am oddeutu 100 niwrnod i'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae interniaid Change 100 eisoes wedi creu argraff dda ar dros 160 o gyflogwyr blaenllaw. Ni waeth maint neu sector eich sefydliad, neu'r cyfleoedd sydd ar gael, estynnwn wahoddiad i chi brofi buddion Change 100. Rydym hefyd yn gallu darparu lleoliadau sydd o bell drwy'r amser pe bai hynny'n gweddu i'ch angen busnes.

64:27

Benyw:Gwryw*

42%

Cyntaf o'r teulu i fynd i'r brifysgol


29%

Du ac ethnigrwydd lleiafrifol

100%

Yn datgelu un anabledd neu fwy

*Dewisodd gweddill y cyfranogwyr naill ai 'arall' neu 'mae'n well gen i beidio â dweud'. Ystadegau o gyfranogwyr 2020[.



“ Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn ardderchog ac yn ei gwneud hi'n wirioneddol syml i reolwyr llogi prysur brynu i mewn i'r broses. Mae ansawdd yr ymgeiswyr bob amser yn uchel. ”

Tîm adnoddau dynol, Skanska

Pam cymryd rhan?

Mynediad at ddawn gudd

Gallwch gael mynediad at gronfa o ymgeiswyr hynod addawol na fyddech chi efallai yn gallu eu cyrraedd drwy brosesau dethol a recriwtio traddodiadol.

Cyfle masnachol

Amcangyfrifir bod gan y 'bunt borffor' werth o oddeutu £249 biliwn bob blwyddyn.* Bydd cyflogi pobl ag anabledd yn rhoi mewnwleidiad hollbwysig i chi a fydd yn eich helpu i werthu'n fwy effeithiol i bobl ag anabledd ledled y byd.

Byddwch yn hyderus am anabledd

Rydym yn deall y gallai fod llawer o bryderon ynghylch defnyddio'r iaith briodol a chefnogi staff ag anabledd. Mae ein canllawiau a'n cymorth parhaus yn rhoi cyngor clir, safbwyntiau newydd a hyder i staff. Gall cymryd rhan mewn Change 100 eich helpu i gael eich cydnabod yn fel cyflogwr sy'n Ymrwymedig i Anabledd ac yn Hyderus Amdano.

Gwella morâl staff

Mae'n debyg y byddwch chi eisoes yn cyflogi pobl ag anabledd nad ydynt wedi rhannu eu hanabledd. Bydd cymryd rhan mewn Change 100 yn anfon arwyddion cadarnhaol i'ch staff, gan ddangos eich bod yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol.

Gofalu am eich staff presennol yn well

Mae 83% o bobl anabl yn datblygu eu hanabledd yn ystod eu bywyd gweithio.** Bydd y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn gallu parhau â'u cyflogaeth bresennol, ar yr amod y bydd eu cyflogwyr yn gwneud addasiadau lleoliad.

*Department for Work and Pensions, 2018

**Centre for Social Justice, Rethinking disability at work, 2017



Fel partner Change 100 byddwch yn derbyn:

- Intern eithriadol a ddewiswyd drwy broses gadarn ond cynhwysol a reolwyd gan y tîm Change 100 a chyflogwyr sy'n cymryd rhan
- Sesiwn hyfforddi anableded a chyflogaeth a briffio pwrpasol ar gyfer interniaid ar gyfer yr holl staff sy'n rhan o'r rhaglen
- Cefnogaeth barhaus drwy gydol y cyfnod interniaeth, sy'n 3 mis o hyd
- Mewn achos o gyfyngiadau llymach gan y llywodraeth oherwydd Covid-19, byddwn yn eich cefnogi i addasu eich lleoliad yn unol â hynny. Yn 2020, cyflawnwyd ein holl interniaethau o bell

Bydd eich sefydliad yn elwa o:

- Gyfleoedd datblygu i'ch staff – rydym yn cynnig adnoddau a chymorth parhaus i fentoriaid yn eich sefydliad
- Cyfleoedd rhwydweithio â chyflogwyr Change 100 eraill – rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd i rannu arfer gorau sy'n berthnasol i anableded
- Hysbysebu am ddim yn ein holl weithgareddau marchnata i fyfyrwyr ar gampysau ledled y DU a sefydliadau eraill rydym ni'n ymgysylltu â nhw, gan roi mynediad i chi at gronfa ehangach o ddawn
- Dangos ymrwymiad i amrywiaeth, ac i wella arferion cynhwysol yn eich sefydliad

Rhai o'n partneriaid cefnogi



ARUP



ASOS



BBC STUDIOS

Bevan Brittan 



CITY OF
WOLVERHAMPTON
COUNCIL



FARRER & Co



FREETHS

Heathrow



IHG®



**OPEN SOCIETY
FOUNDATIONS**



SKANSKA

**Taylor
Wimpey**

THE
**NATIONAL
GALLERY**



Cost

Cost cymryd rhan mewn Change 100 yw £3,250 + TAW fesul intern yn ogystal â chyflog yr intern dros gyfnod y lleoliad. Rhaid i'r cyflog fod yn gyfwerth neu'n fwy na chyfradd fesul awr Living Wage Foundation: www.livingwage.org.uk

Dros y chwe blynedd diwethaf:

Cytunodd

95%

o gyflogwyr fod eu hintern Change 100 wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad

Cytunodd

92%

o gyflogwyr fod ewylllys da ymhlith staff wedi cynyddu o ganlyniad i fwy o ymwybyddiaeth o anabledd a mwy o hyder amdano

Eich intern Change 100

Bydd pob intern Change 100 wedi ennill, neu rhagwelir y bydd yn ennill, gradd dosbarth 2:1 neu 1af yn eu gradd israddedig*, ac maent oll yn gymwys i weithio yn y DU am gyfnod lleoliad haf amser llawn.

Rydym yn asesu'r galluoedd canlynol:

- Datrys problemau
- Gweithio mewn tîm
- Sgiliau trefnu
- Cymhelliad
- Cymhwysedd
- Hunanddatblygiad
- Hunanadfyfrio

*Bydd y tîm Change 100 yn ystyried amgylchiadau esgusodol sy'n berthnasol i anabledd neu gyflwr iechyd yr intern.



Dyddiadau allweddol

Medi 2020

Ymgyrch hyrwyddo a recriwtio mewn prifysgolion

Medi 2020–Ionawr 2021

Cyfnod ymgeisio i fyfyrwyr

Ionawr–Chwefror 2021

Llunio rhestrau byr o ymgeiswyr a chanolfannau asesu, mewn partneriaeth â chyflogwyr sy'n cymryd rhan

Mawrth–Ebrill 2021

Y broses baru, mewn partneriaeth â chyflogwyr sy'n cymryd rhan

Mai 2021

Hyfforddiant anabledd a chyflogaeth gyda sesiwn bwrpasol am yr intern i gyflogwyr

Mehefin–Medi 2021*

Cyfnod y lleoliad a dechrau'r rhaglen ddatblygiad proffesiynol i interniaid

Cefnogaeth barhaus i gyflogwyr drwy gydol yr haf

Medi–Rhagfyr 2021

Parhau â'r rhaglen ddatblygiad proffesiynol a digwyddiad graddio ym mis Rhagfyr

*Depending on government coronavirus guidelines, we are able to support placements starting later in the year

Sut gallwch chi ddechrau ar eich taith Change 100 chi?

Cysylltwch â'r tîm Perthnasoedd Cyflogwyr Change 100 drwy'r manylion isod:

020 3242 0200

change100@leonardcheshire.org

leonardcheshire.org/change100

Leonard Cheshire Disability is a registered charity no: 218186 (England & Wales) and no: SC005117 (Scotland), and a company limited by guarantee registered in England no: 552847. VAT no: 899 3223 75. Registered office: 66 South Lambeth Road, London SW8 1RL.

Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi clod i Change 100 am “fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym marchnad lafur y DU... â'r nod o newid y tirlun cyflogaeth i fyfyrwyr anabl.”